Archwiliad 2010-11

Medi 2011

Awduron: Anthony Barrett a Virginia Stevens

Cyf: NWF2011

# Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Mae Anthony Barrett, fel Archwilydd Penodedig, yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion i adrodd wrthych yn eu cylch cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Adroddiad archwilio arfaethedig** | 4 |
| **Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad** | 4 |
| **Atodiadau** | |
| 1 – Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol – Swyddfa Archwilio Cymru | 7 |
| 2 – Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol – KPMG | 9 |
| 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 15 |
| 4 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | 17 |
| 5 – Sylwadau Archwilio Eraill | 18 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r datganiad perthnasol o gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo’n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae’r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus
wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn

## Cyflwyniad

1. Anthony Barrett, fel Archwilydd Penodedig, sy'n gyfrifol am roi ei farn ar gywirdeb a thegwch y darlun y mae'r datganiadau ariannol yn ei roi o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Daeth y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 i law ar 30 Mehefin 2011, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth. Rydym yn adrodd ar y materion mwyaf sylweddol sy'n codi o'r archwiliad y credwn fod yn rhaid i chi eu hystyried cyn i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dawn Docx a Sandra Forrest.
3. Ni cheisiwn gael sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol yn gywir, ond yn hytrach, mabwysiedir cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, ceisiwn ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, h.y. rhai a allai gamarwain darllenwyr.
4. Rydym yn barnu fod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru os ydynt yn werth £323,000 ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd gael effaith sy'n penderfynu pa mor berthnasol yw eitem.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

5. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyron Cynrychiolaeth ar ein cyfer yn seiliedig ar yr hyn a nodir Atodiad 1 a 2.
6. Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig i'w weld yn Atodiad 3.

## Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

### Camddatganiadau heb eu cywiro

7. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol sy'n parhau heb eu cywiro.

### Camddatganiadau wedi'u cywiro

8. Ystyriwn y dylid dwyn camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr i'ch sylw oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol. Cânt eu cynnwys gydag esboniadau yn Atodiad 4.
9. Mae trosglwyddo i adrodd ar sail y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi golygu cryn dipyn o waith. Gwnaed nifer o newidiadau i'r Datganiad o Gyfrifon drafft, ac yn eu plith mae

- Cynnwys datganiad trosglwyddo incwm a gwariant IFRS i ddangos y newidiadau i'r symiau cymharol
- Diwygio'r Datganiad o Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Cyfrif Incwm a Gwariant a throsglwyddiadau cywir
- Newidiadau o ran cyflwyniad

### Materion eraill arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad

10. Yn ystod yr archwiliad, byddwn yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd wrthych am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd canlynol eleni:
    - **nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cadw cyfrifon ac adrodd ariannol.** Ystyriwn fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, o sylwedd ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad fod y polisïau cyfrifyddu a'r amcangyfrifon yn briodol a datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn eglur;
    - **ni chawsom unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.** Daeth y wybodaeth i law'n brydlon a pharod ac ni chawsom ein cyfyngu yn ein gwaith;
    - **nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol a drafodwyd ac a ohebwyd yn eu cylch gyda'r rheolwyr sydd angen i ni adrodd arnynt wrthych chi;**
    - **nid oes unrhyw faterion eraill pwysig i'r arolygiaeth o'r broses adrodd ariannol sydd angen i ni adrodd arnynt wrthych chi;**
    - **ni ddaethom o hyd i unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaeth fewnol.** Adroddwn ar y rhain lle nad ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt neu lle gallant fod yn symptomau o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol. Fodd bynnag, nodwyd un gwendid nad yw'n berthnasol a maes posibl ar gyfer gwella sy'n ymwneud â rheolaeth fewnol. Manylwyd ar y rhain yn Atodiad 5.

## Materion Archwilio Eraill

### Newidiadau pensiwn a chyfrifyddu

11. Cynhwysai Adroddiad Cyllideb 2010 gyhoeddiad y byddai pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu codi yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) o fis Ebrill 2011 ymlaen. Bu trafod ynglŷn â'r dull o gyfrifyddu'r newid hwn.
12. Yn unol â chanllawiau actwaraidd symudwyd credyd (incwm) o £24 miliwn i 'gostau na ddosbarthwyd' yn y datganiadau incwm a gwariant cynhwysfawr, sydd wedi arwain at £29 miliwn o arian dros ben am ddarparu gwasanaethau yn hytrach nag arian dros ben o £5 miliwn.
13. Mae'r penderfyniad i symud o RPI i CPI gerbron y llysoedd ar hyn o bryd mewn achos adolygiad barnwrol. Nid yw canlyniad yr achos yn hysbys eto a bellach, cynhwyswyd rhwymedigaeth wrth gefn yn unol â hynny yn y Datganiad o Gyfrifon.
14. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys dyrannu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân i ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân Gogledd Cymru sy'n cynnwys Cyfrif

y Gronfa a'r datganiad Asedau Net fel sydd i'w gweld ar dudalen 55. Seiliwyd y cofnodion a'r datgeliadau cyfrifyddu ar ddogfennau a ddarparwyd ar ein cyfer ar ddyraniad cronfa bensiwn y diffoddwyr tân i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Atodiad 1

# Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol – Swyddfa Archwilio Cymru

(Audited Body's Letterhead)

Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad

## Sylwadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol 2011

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011.

Rydym yn cadarnhau ein bod, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ac ar ôl gwneud ymholiadau a ystyriwn yn ddigonol, yn gallu cyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

**Sylwadau'r Rheolwyr**

### Cyfrifoldebau:

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau dros baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS); yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros lunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol er mwyn atal a datgelu pob twyll a chamgymeriad.

### Y wybodaeth a ddarparwyd:

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn:
  - i'r holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - i wybodaeth ychwanegol y gofynnoch amdani gennym at ddibenion yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth ganddynt ar gyfer yr archwiliad yn eich barn chi.
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll;

- ein gwybodaeth fod twyll wedi'i gyflawni neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohono, sy'n effeithio ar Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ac sy'n ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - gweithwyr â swyddogaeth arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol y rhoddwyd gwybod amdano gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys o fethiant i gydymffurfio neu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bob parti cysylltiedig a holl gysylltiadau a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

### Sylwadau ar y Datganiad Ariannol:

Cofnodwyd yr holl drafodion, yr asedau a'r rhwymedigaethau yng nghofnodion y cyfrifon a chânt eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae rhagdybiaethau arwyddocaol, a ddefnyddiwyd wrth greu amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys rhagdybio gwerth teg, yn rhesymol.

Mae cysylltiadau a thrafodion partïon cysylltiedig wedi'u datgelu'n briodol a chyfrif wedi'i roi amdanynt.

Mae pob digwyddiad sydd angen ei gymhwyso neu ei ddatgelu wedi'r dyddiad adrodd wedi'i gymhwyso neu ei ddatgelu.

Mae pob mater ymgyfreitha a hawliad posibl neu wirioneddol y dylid ystyried ei effaith wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'i ddatgelu i'r archwilydd a chyfrif wedi'i roi amdano ac wedi'i ddatgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys.

Nid oes camddatganiadau, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid yw'r camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad, yn unigol a chyda'i gilydd, yn effeithio ar y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

### Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi'u trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar [insert date].

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| [Y swyddog sy'n llofnodi ar ran y rheolwyr] | [Y swyddog neu'r aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu] |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

Atodiad 2

# Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol – KPMG

(Letterhead of Client)

KPMG LLP
3 Assembly Square
Britannia Quay
Bae Caerdydd
CF10 4AX

[Date]

Annwyl Foneddigion

Darperir y Llythyr Cynrychiolaeth hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ("yr Awdurdod") a chronfa bensiwn y diffoddwyr tân, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, i'r diben o farnu a yw'r rhain:

i. yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011 a gwariant ac incwm yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

ii. yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol cronfa bensiwn y diffoddwyr tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a swm a threfniadaeth asedau a rhwymedigaethau'r gronfa fel ag yr oeddynt ar 31 Mawrth 2011, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun;

iii. wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys Datganiad o Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yr Awdurdod, Mantolen yr Awdurdod, Datganiad Llif Arian yr Awdurdod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae datganiadau ariannol cronfa bensiwn y diffoddwyr tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau fod y sylwadau y mae'n eu cyflwyno yn y llythyr hwn yn cydymffurfio â'r diffiniadau a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, ac ar ôl gwneud ymholiadau yr ystyriai'n angenrheidiol i'r diben o ymgyfarwyddo'n briodol â'r wybodaeth, wedi gwneud y canlynol:

**Datganiadau ariannol**

1. Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau, fel y'u nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, ar gyfer paratoi datganiadau ariannol sydd:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011 a gwariant ac incwm yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol cronfa bensiwn y diffoddwyr tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a swm a threfniadaeth asedau a rhwymedigaethau'r gronfa fel ag yr oeddynt ar 31 Mawrth 2011, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

2. Mae'r dulliau o fesur a'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth greu amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.
3. Mae pob digwyddiad wedi dyddiad y datganiadau ariannol sydd angen ei gymhwyso neu ei ddatgelu yn ôl Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 wedi cael ei gymhwyso neu ei ddatgelu.

**Y wybodaeth a ddarparwyd**

4. Mae'r Awdurdod wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:
   - mynediad i'r holl wybodaeth y mae'n ymwybodol ohoni, sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
   - gwybodaeth ychwanegol y gofynnoch amdani gan yr Awdurdod at ddibenion yr archwiliad; a
   - mynediad digyfyngiad i bobl o fewn yr Awdurdod yr oedd angen cael tystiolaeth ganddynt ar gyfer yr archwiliad yn eich barn chi.
5. Cofnodwyd yr holl drafodion yng nghofnodion y cyfrifon a chânt eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.
6. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros y rheolaeth fewnol y cred sydd ei hangen ar gyfer paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad. Yn benodol, mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros lunio, gweithredu a chynnal rheolaeth fewnol er mwyn atal a datgelu pob twyll a chamgymeriad.

   Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi ganlyniadau ei asesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll. Yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, rhestrir diffiniadau o dwyll, gan gynnwys camddatganiadau'n codi o adrodd ariannol twyllodrus a chamddefnyddio asedau.
7. Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi'r holl wybodaeth mewn perthynas â:

   (a) Twyll neu amheuaeth o dwyll y mae'n ymwybodol ohono, sy'n effeithio ar yr Awdurdod ac sy'n ymwneud â:
   - rheolwyr;
   - gweithwyr â swyddogaeth arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
   - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol; a

(b) honiadau o dwyll neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol y rhoddwyd gwybod amdano gan weithwyr, cyn-weithwyr, dadansoddwyr, rheoleiddwyr neu eraill.

8. Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi bob achos hysbys o fethiant i gydymffurfio neu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffaith wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Ymhellach, y mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi ac wedi rhoi cyfrif priodol am bob mater ymgyfreitha a hawliadau posibl neu wirioneddol y dylid ystyried eu heffaith wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a/neu wedi datgelu'r rhain yn y datganiadau ariannol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

9. Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi wybodaeth am bartïon cysylltiedig yr Awdurdod a chysylltiadau a thrafodion yr holl bartïon cysylltiedig y mae'n ymwybodol ohonynt a chyfrif priodol wedi'i roi a datgeliad wedi'i wneud am berthynas a thrafodion yr holl bartïon cysylltiedig yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

   Wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, y mae diffiniadau o barti cysylltiedig a thrafodion parti cysylltiedig fel y dealla'r Awdurdod hwy ac fel y'u diffinnir yn IAS 24, ac eithrio lle manylir ar ddehongliadau neu addasiadau i weddu i'r sector cyhoeddus yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

10. Ar sail y broses a sefydlwyd gan yr Awdurdod ac ar ôl gwneud ymholiadau addas, mae'r Awdurdod yn fodlon fod y rhagdybiaethau actiwaraidd sy'n sail i brisiad rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yn gyson â'i wybodaeth am y busnes.

    Ymhellach, mae'r Awdurdod yn cadarnhau:

    (a) fod pob budd-dal ymddeol arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw drefniadau sydd

    - yn statudol, dan gontract neu ymhlyg yng ngweithredoedd y cyflogwr;
    - yn digwydd yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon neu dramor;
    - wedi'u hariannu neu heb eu hariannu; ac
    - wedi'u cymeradwyo neu heb eu cymeradwyo,

    wedi'u nodi a chyfrif priodol wedi'i roi amdanynt; a

    (b) bod pob setliad a chwtogiad wedi'i nodi a chyfrif priodol wedi'i roi amdanynt.Cyflwynwyd a chytunwyd ar y llythyr hwn yng nghyfarfod yr Awdurdod ar

*[date]*.

Yr eiddoch yn gywir,

Cadeirydd yr Awdurdod
Trysorydd

## Atodiad A i Lythyr Cynrychiolaeth Terfynol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Diffiniadau

### Datganiadau Ariannol

Mae set gyflawn o ddatganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y cyfnod
- Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant ar gyfer y cyfnod
- Mantolen fel ag yr oedd ar ddiwedd y cyfnod
- Datganiad Llif Arian ar gyfer y cyfnod
- Nodiadau, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol a gwybodaeth esboniadol arall, a
- Mantolen fel ag yr oedd ar gychwyn y cyfnod cymharol cynharaf (h.y. trydedd Fantolen) os yw awdurdod yn cymhwyso polisi cyfrifyddu yn ôl-weithredol neu'n gwneud ailddatganiad ôl-weithredol ar gyfer eitemau yn ei ddatganiadau ariannol, neu os yw'n ailddosbarthu eitemau yn ei ddatganiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i awdurdod lleol gyflwyno cyfrifon grŵp yn ogystal â'i gyfrifon endid sengl lle bo gofyn gwneud hynny ym mhennod naw Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cofnodion Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Ar gyfer cronfeydd pensiwn sy'n rhan o'r cynlluniau pensiwn canlynol, dylid paratoi cyfrifon cronfa bensiwn:

a) Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru

Dylai datganiadau ariannol cronfa budd-daliadau pensiwn ddiffiniedig ac awdurdodau gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a Lloegr gynnwys:

a) Cyfrif cronfa sy'n datgelu newidiadau o ran yr asedau net sydd ar gael ar gyfer budd-daliadau.

b) Datganiad asedau net yn dangos yr asedau sydd ar gael ar gyfer budd-daliadau ar ddiwedd y flwyddyn.

c) Nodiadau i'r cyfrifon.

### Materion Perthnasol

Disgrifir rhai sylwadau yn y llythyr hwn fel rhai sy'n gyfyngedig i faterion sy'n berthnasol.

Ystyrir hepgor neu gam-ddatgan eitemau yn berthnasol pe gallent, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau neu asesiadau defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol. Mae perthnasedd yn dibynnu ar natur neu faint yr hepgoriad neu'r camddatganiad fel y bernir yn briodol o ran ei amgylchiadau. Gallai'r ffactor sy'n pennu perthnasedd fod yn natur neu faint yr eitem neu'n gyfuniad o'r ddau.

### Twyll

Mae adrodd ariannol twyllodrus yn ymwneud â chamddatganiadau bwriadol gan gynnwys hepgor symiau neu ddatgeliadau mewn datganiadau ariannol i dwyllo defnyddwyr y datganiadau ariannol.

Mae camddefnyddio asedau'n cynnwys dwyn asedau endid. Yn aml, bydd cofnodion neu ddogfennau camarweiniol yn cael eu creu hefyd er mwyn cuddio'r ffaith fod yr asedau ar goll neu wedi'u haddo heb awdurdodiad priodol.

**Camgymeriad**

Camddatganiad anfwriadol mewn datganiad ariannol yw camgymeriad, gan gynnwys hepgor swm neu ddatgeliad.

Mae camgymeriadau o gyfnod blaenorol yn hepgoriadau o, a chamddatganiadau yn, natganiadau ariannol yr endid ar gyfer un neu fwy o gyfnodau blaenorol sy'n deillio o fethiant i ddefnyddio, neu o gamddefnyddio, gwybodaeth ddibynadwy:

a) a oedd ar gael pan gafodd y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau hynny eu hawdurdodi i'w cyhoeddi, ac
b) y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod wedi'u cael a'u hystyried wrth baratoi a chyflwyno'r datganiadau ariannol hynny.

Mae camgymeriadau o'r fath yn cynnwys effeithiau gwallau mathemategol, gwallau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu, amryfusedd neu gamddehongli ffeithiau, a thwyll.

**Rheolwyr**

At ddibenion y llythyr hwn, dylid darllen cyfeiriadau at "reolwyr" fel "rheolwyr, a lle sy'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".

**Parti cysylltiedig**

Ystyrir bod partïon yn gysylltiedig os oes gan un parti allu i reoli'r parti arall neu os oes ganddo ddylanwad arwyddocaol dros y parti arall o ran gwneud penderfyniadau ariannol a gweithredol neu os yw'r endid sy'n barti cysylltiedig ac endid arall yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredin.

Mae partïon cysylltiedig yn cynnwys:

a) endidau sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy un neu fwy o gyfryngwyr, yn rheoli, neu'n cael eu rheoli gan yr awdurdod (hy is-gwmnïau);
b) aelodau cyswllt;
c) mentrau ar y cyd lle mae'r awdurdod yn fenter;
d) endid â diddordeb yn yr awdurdod sy'n rhoi dylanwad arwyddocaol iddo dros yr awdurdod;
e) personél rheoli allweddol, ac aelodau agos o deuluoedd personél rheoli allweddol; ac
f) cynllun budd-dal ôl-gyflogaeth (cronfa bensiwn) er budd gweithwyr yr awdurdod, neu er budd unrhyw endid sy'n barti cysylltiedig i'r awdurdod.

Mae personél rheoli allweddol oll yn brif swyddogion (neu gyffelyb), aelodau etholedig, prif weithredwr yr awdurdod a phobl eraill sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r awdurdod gan gynnwys arolygu'r gweithgareddau hyn.

Nid yw'r Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn barnu fod y canlynol yn bartïon cysylltiedig:

a) darparwyr cyllid wrth gyflawni eu busnes yn hynny o beth ac undebau llafur wrth gyflawni eu trafodion arferol gydag awdurdod yn rhinwedd y trafodion hynny'n unig; a
b) endid y mae'r berthynas ag ef yn un gwbl asiantaethol.

**Trafodion parti cysylltiedig**

Trafodion parti cysylltiedig yw trosglwyddo adnoddau neu rwymedigaethau rhwng partïon cysylltiedig, boed am dâl neu beidio. Mae trafodion partïon cysylltiedig yn gwahardd unrhyw drafodion ag unrhyw endid arall sy'n barti cysylltiedig oherwydd ei ddibyniaeth economaidd ar yr awdurdod neu'r llywodraeth y mae'n rhan ohonynt yn unig.

## Atodiad 3

### Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Yr wyf i wedi archwilio datganiadau o gyfrifon a nodiadau cysylltiedig:

- Awdurdod Tân Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau o gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru'n cynnwys y Datganiad o Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae datganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

#### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon sydd i'w weld ar dudalennau ... i ..., y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi datganiad o gyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

#### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau o gyfrifon

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau a geir yn y datganiadau o gyfrifon a nodiadau cysylltiedig er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau o gyfrifon hynny yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed y rheiny'n cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hynny'n cynnwys asesu priodoldeb y polisïau cyfrifyddu ar gyfer amgylchiadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, ynghyd â'r cysondeb o ran eu cymhwyso a'r digonolrwydd o ran eu datgelu, yn ogystal ag asesu pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol wedi'u gwneud a chyflwyniad y datganiadau o gyfrifon a nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal â hynny, yr wyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth nad yw'n ariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysonderau perthnasol yn y datganiadau o gyfrifon archwiliedig a nodiadau cysylltiedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

#### Barn ar ddatganiadau o gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Yn fy marn i, mae'r datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011 ynghyd â'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

**Barn ar ddatganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 ac o swm a threfniadaeth asedau a rhwymedigaethau'r gronfa fel ag yr oeddynt ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth sydd yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau o gyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig

**Materion yr adroddaf yn eu cylch fel eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu yr adroddaf wrthych yn ei gylch os nad yw, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r fframwaith ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall y dof yn ymwybodol ohoni drwy fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett

**Archwilydd Penodedig**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd,**

**CF11 9LJ**

**Medi 2011**

Atodiad 4

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Yn ystod ein harchwiliad, cafodd y camddatganiadau canlynol, a gywirwyd gan y rheolwyr, eu nodi gennym, ond ystyriwn y dylid eu dwyn i'ch sylw oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Debyd Arian Parod<br>£2,004,000<br>Credyd Buddsoddiadau tymor byr<br>£2,004,000 | Hysbys | Ailddosbarthu buddsoddiad tymor byr i arian parod neu gyfwerth ag arian parod yn unol â IFRS. |
| Debyd Nwyddau<br>£165,000<br>Credyd Arian wrth gefn a glustnodwyd<br>£165,000 | Hysbys | Ailddosbarthu darpariaeth pensiynau i arian wrth gefn wedi'i glustnodi |
| | | |

Atodiad 5

## Sylwadau Archwilio Eraill

Yn ystod ein harchwiliad, cafodd y diffygion rheolaeth fewnol canlynol, y barnwyd nad ydynt yn berthnasol, eu nodi gennym, ond ystyriwn y dylid eu dwyn i'ch sylw.

| Sylw | Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr |
|---|---|---|
| Paratowyd cyfrif cronnus o'r absenoldebau cronedig drwy ddefnyddio sampl cymharol gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chadw yn y gorsafoedd tân ac achub unigol. | Dylai fod yn ofynnol i reolwyr ymateb grynhoi'r wybodaeth gronedig ynglŷn ag absenoldebau fel rhan o'u gweithdrefnau diwedd blwyddyn. | |
| | | |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk